OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3342 (Cy.303)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - - 13 Rhagfyr 2006

Yn dod i rym - - 1 Ionawr 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y ddeddfwriaeth Gymunedol" ("*Community legislation*") yw'r offerynnau hynny a restrir yn yr Atodlen; ac

ystyr "penderfyniad perthnasol" ("*a relevant determination*") yw unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chymorth ariannol a hawliadau am gymorth ariannol yn unol â deddfwriaeth Gymunedol neu mewn cysylltiad â'r ddeddfwriaeth honno ac â'r ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn rheoliad 4 (a) i (i) o'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S.2005/2766.
(**2**) 1972 p.68.

Darparu gweithdrefn apelio

3.—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol sefydlu gweithdrefn neu weithdrefnau er mwyn ystyried penderfyniad perthnasol ymhellach, a hynny ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, a bydd y weithdrefn honno neu'r gweithdrefnau hynny yn gweithio fel apêl yn erbyn y penderfyniad perthnasol dan sylw.

(2) Caiff unrhyw weithdrefn a sefydlir yn unol â pharagraff (1) osod unrhyw ddyddiadau cau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ffermwr gyflwyno iddo wybodaeth a dogfennau sy'n gymwys ac i roi hysbysiad o'i fwriad i apelio yn erbyn penderfyniad perthnasol.

(3) Caiff unrhyw weithdrefn a sefydlir o dan baragraff (1) ddarparu ar gyfer apelio ar lafar neu'n ysgrifenedig i'r personau hynny y caiff y Cynulliad Cenedlaethol eu penodi at y diben hwnnw (heb fod mwy na thri ohonynt), gyda'r bwriad eu bod yn llunio adroddiad o'u casgliadau a'u hargymhellion o ran sut y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu ar yr apêl.

(4) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu unrhyw weithdrefn o'r fath a grybwyllir ym mharagraff (3), caiff—

(a) talu i'r personau a benodir felly unrhyw dâl am eu swyddogaethau o dan y weithdrefn honno, ac unrhyw lwfansau teithio a lwfansau eraill, y bydd y Cynulliad yn eu pennu; a

(b) codi ar unrhyw berson yr ystyrir ei apêl o dan y weithdrefn a sefydlwyd felly unrhyw ffi (heb fod yn fwy na £100) y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei bennu.

Diwygio

4.—(1) Dileer y darpariaethau a ganlyn —

(a) Erthygl 5(b) o Orchymyn Dynodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Amgylcheddol (Uwchdiroedd Cymru — Estyniad) 1987(**3**);

(b) Erthygl 5(b) o Orchymyn Dynodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Amgylcheddol (Y Preseli) 1994(**4**);

(c) Erthygl 5(b) o Orchymyn Dynodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Amgylcheddol (Bryniau Clwyd) 1994(**5**);

(ch) Erthygl 5(b) o Orchymyn Dynodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Amgylcheddol (Maesyfed) 1993(**6**);

(d) Erthygl 5(b) o Orchymyn Dynodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Amgylcheddol (Ynys Môn) 1993(**7**);

(dd) Erthygl 5(b) o Orchymyn Dynodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Amgylcheddol (Penrhyn Llŷn) 1987(**8**);

(e) Rheoliad 10(5) o Reoliadau Cynefinoedd (Coetir Llydanddail) (Cymru) 1994(**9**);

(f) Rheoliad 10(5) o Reoliadau Cynefinoedd (Lleiniau Arfordirol) (Cymru) 1994(**10**);

(ff) Rheoliad 10(5) o Reoliadau Cynefinoedd (Gwelltiroedd Cyfoethog eu Rhywogaethau) (Cymru) 1994(**11**);

(g) Rheoliad 10(5) o Reoliadau Cynefinoedd (Ymylon Dŵr) (Cymru) 1994(**12**);

(**3**) O.S. 1987/2026.
(**4**) O.S. 1994/239.
(**5**) O.S. 1994/238.
(**6**) O.S. 1993/1211.
(**7**) O.S. 1993/1210.
(**8**) O.S. 1987/2027.
(**9**) O.S. 1994/3099.
(**10**) O.S. 1994/3101.
(**11**) O.S. 1994/3102.
(**12**) O.S. 1994/3100.